




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Trosglwyddo Pensiynau

Blaenorol i'r CPLIL

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Rhagarweiniad	3
Beth yw gwerth trosglwyddo?	3
Trosglwyddiadau o CPLIL	3
Cyswllt Cyflog Terfynol (Ail-ymuno â'r CPLIL gydag aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014).....	3
Cyfraniadau ychwanegol.....	4
Trosglwyddiadau o gynllun pensiynau'r sector cyhoeddus.....	4
Trosglwyddiadau o gynlluniau sector preifat neu gynlluniau pensiwn personol	4
Credydau Pensiwn	5
Lwfans blynyddol	5
Proses Trosglwyddo i mewn	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	6
Ymwadiad.....	6

Rhagarweiniad

Pan fyddwch yn dechrau talu cyfraniadau pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), gallwch drosglwyddo pensiynau blaenorol i'r cynllun drwy wneud cais am hyn o fewn 12 mis ar ôl i chi ymuno â'r cynllun. Gall cyflogwyr ymestyn y ffenestr drosglwyddo.

Beth yw gwerth trosglwyddo?

Mae gwerth trosglwyddo (a elwir hefyd yn Werth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod) yn dangos gwerth eich hawliau pensiwn â'ch darparwr pensiwn blaenorol. Os yw trosglwyddiad yn mynd rhagddo, bydd y gwerth trosglwyddo yn cael ei dalu i'r Gronfa Bensiwn gan eich darparwr blaenorol a bydd eich cyfrif pensiwn yn cael ei gredydu â swm pensiwn ychwanegol, a fydd yn cael ei ychwanegu at eich pensiwn CPLIL presennol. Unwaith y bydd y gwerth trosglwyddo'n cael ei dalu, fel rheol ni fydd gennych hawliad pellach i fuddion gyda'ch darparwr pensiwn blaenorol.

O bryd i'w gilydd bydd Adran Actiwari'r Llywodraeth yn cyflwyno ffactorau trosglwyddo newydd a allai newid faint o bensiwn y bydd eich gwerth trosglwyddo yn ei brynu yn y CPLIL.

Trosglwyddiadau o CPLIL

Os oes gennych bensiwn blaenorol yn y CPLIL yng Nghymru neu Loegr, a'ch bod wedi rhoi'r gorau i dalu cyfraniadau ar y pensiwn hwnnw ar 1 Ebrill 2014 neu ar ôl hynny, caiff ei gyfuno'n awtomatig â'r pensiwn CPLIL parhaus newydd (ar yr amod bod pob cronfa CPLIL yn ymwybodol o'r aelodaeth sydd gennych yn rhywle arall). Bydd eich pensiynau CPLIL ond yn cael eu cadw ar wahân os ydych chi wedi dewis hynny. Mae gennych 12 mis o ddyddiad ail-ymuno â'r CPLIL i ddewis cadw'r pensiynau ar wahân.

Os gwnaethoch adael y cynllun ar neu cyn 31 Mawrth 2014, bydd y pensiwn blaenorol yn cael ei gadw ar wahân i'r pensiwn CPLIL parhaus newydd, oni bai eich bod yn dewis eu cyfuno. Mae gennych 12 mis o pan rydych yn ail-ymuno â'r CPLIL i ddewis eu cyfuno.

Cyswllt Cyflog Terfynol (Ail-ymuno â'r CPLIL gydag aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014)

Os ydych wedi cael toriad parhaus mewn aelodaeth CPLIL sy'n llai na pump mlynedd, byddwch yn cadw unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn 1 Ebrill 2014 fel pensiwn Cyflog Terfynol. Bydd y pensiwn a gronnwyd o 1 Ebrill 2014 yn bensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio. I bob pwrpas, bydd eich pensiwn CPLIL yn cael ei drosglwyddo i'ch cronfa CPLIL newydd ar sail 'tebyg at ei debyg'.

Os ydych wedi cael toriad parhaus mewn aelodaeth CPLIL o fwy na pump mlynedd, bydd y trosglwyddiad yn torri'r cyswllt cyflog terfynol a bydd yr holl bensiwn (cyflog terfynol a Chyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio) yn cael ei drosglwyddo drosodd a'i drosi'n bensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio.

Cyfraniadau ychwanegol

Gallwch drosglwyddo cynllun cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY) blaenorol i ddarparwr CGY mewnol eich Cronfa CPLIL newydd.

Os oeddech chi'n talu:

- tuag at brynu blynyddoedd ychwanegol, neu
- cyfraniadau rheolaidd ychwanegol (CRhY), neu
- cyfraniadau pensiwn ychwanegol (CPY),

efallai y bydd gennych gyfle i barhau i dalu'r cyfraniadau ychwanegol hyn, er y byddai angen i chi hysbysu'ch cronfa CPLIL newydd.

Trosglwyddiadau o gynllun pensiynau'r sector cyhoeddus

Mae cynlluniau'r sector cyhoeddus yn cynnwys:

- Gweision Sifil
- Y Farnwriaeth
- Y Lluoedd Arfog
- Gweithwyr Llywodraeth Leol
- Athrawon
- Gweithwyr y Gwasanaeth Iechyd
- Tân ac Achub
- Heddluoedd
- Aelodau Cynllun Pensiwn Corff Cyhoeddus newydd

Os oes gennych hawliau pensiwn yn un o'r cynlluniau hyn a bod gennych doriad parhaus mewn aelodaeth o lai na pump llynedd, bydd gennych hawl i gadw'ch cyswllt cyflog terfynol hyd yn oed os byddwch yn ei drosglwyddo i'r CPLIL.

Fodd bynnag, os yw'r toriad yn fwy na pump mlynedd, bydd y cyswllt cyflog terfynol yn cael ei dorri wrth drosglwyddo, a byddai'r pensiwn yn cael ei drawsnewid yn bensiwn Cyfartaledd Cyflog Gyrfa Wedi'i Adbrisio yn y CPLIL.

Trosglwyddiadau o gynlluniau sector preifat neu gynlluniau pensiwn personol

Mae trosglwyddiadau o gynlluniau sector preifat neu gynlluniau pensiwn personol yn cael eu trin yn wahanol i drosglwyddiadau pensiynau'r sector cyhoeddus. Bydd swm y pensiwn a gredydir wrth drosglwyddo yn amrywio o gynllun i gynllun a gall amrywiad yn y marchnadoedd ariannol a gwerth terfynol eich gwerth trosglwyddo effeithio arno hefyd.

Credydau Pensiwn

Ni allwch drosglwyddo credyd pensiwn i'r CPLIL. Mae credyd pensiwn yn gyfran o bensiwn cynbartner. Byddai hyn wedi'i ddyfarnu i chi gan y Llys o dan orchymyn rhannu pensiwn yng Nghymru neu Loegr, neu drwy gytundeb cymwys yn yr Alban, yn dilyn ysgariad neu ddiddymiad partneriaeth sifil.

Lwfans blynyddol

Eich lwfans blynyddol yw'r swm y gall gwerth eich buddion pensiwn gynyddu mewn blwyddyn dreth heb i chi orfod talu treth. Os yw gwerth eich cynilion pensiwn chi rhwng 6 Ebrill a 5 Ebrill yn fwy na'ch lwfans blynyddol, bydd y swm dros ben yn cael ei drethu fel incwm. Mae'r gwiriad lwfans blynyddol hwn yn cynnwys cynilion pensiwn y tu allan i'r CPLIL.

Y terfyn lwfans blynyddol cyfredol yw £60,000 felly nid yw'n cael effaith ar y mwyafrif o aelodau'r cynllun pensiwn.

Pan rydych yn trosglwyddo eich pensiwn blaenorol i'r CPLIL, rydych yn fwyaf tebygol o gael eich effeithio gan y lwfans blynyddol os:

- ydych chi'n trosglwyddo hawliau pensiwn i'r CPLIL o gynllun pensiwn sector cyhoeddus blaenorol o dan reolau trosglwyddo'r clwb ac mae'ch cyflog cyfwerth llawn amser wrth ymuno â'r CPLIL yn uwch na'r cyflog roeddech chi'n ei ennill pan adawsoch y cynllun blaenorol
- ydych chi'n cyfuno buddion pensiwn CPLIL blaenorol a gafodd eu cronni yn adran gyflog derfynol yr CPLIL â'ch cyfrif pensiwn cyfredol ac mae'ch cyflog cyfwerth llawn amser wedi cynyddu'n sylweddol ers gadael y cynllun o'r blaen

Proses Trosglwyddo i mewn

Mae'n rhaid i bob cynllun pensiwn cofrestredig ddilyn rheoliadau Cyllid a Thollau EF a oedd mewn grym ar adeg y trosglwyddiad.

I ddechrau'r broses, mae'n rhaid i chi ofyn am ymchwiliad trosglwyddo trwy lenwi ffurflen Awdurdod Trosglwyddo o fewn 12 mis ar ôl ymuno â'r CPLIL. Gallwch ddod o hyd i ffurflen Awdurdod Trosglwyddo yn yr adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan. Dylech gwblhau ffurflen ar gyfer bob trosglwyddiad yr hoffech i ni ymchwilio iddynt.

Efallai y bydd trosglwyddiadau'n cymryd peth amser i'w cwblhau. Po gynharaf y byddwch yn llenwi ac yn dychwelyd eich ffurflen(ni) Awdurdod Trosglwyddo, y cynharaf y gall y CPLIL ddechrau'r broses drosglwyddo drwy gysylltu â'ch darparwr pensiwn blaenorol.

Ar ôl i'ch CPLIL dderbyn yr holl wybodaeth sydd eu hangen arnynt gan eich darparwr pensiwn blaenorol, byddwch yn derbyn dyfynbris sy'n dangos faint o bensiwn CPLIL fydd y trosglwyddiad yn ei roi i chi. Cyfrifir dyfynbrisiau'n seiliedig ar y gwerth trosglwyddo o'r cynllun blaenorol.

Efallai yr hoffech ofyn am gyngor ariannol annibynnol cyn gwneud y penderfyniad i drosglwyddo'ch hawliau pensiwn blaenorol i'r CPLIL.

Os ydych yn dewis trosglwyddo, bydd eich cronfa CPLIL yn llenwi'r holl ffurflenni gofynnol, ac yn gofyn am daliad o'ch cynllun blaenorol. Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau fod y trosglwyddiad wedi'i gwblhau.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg)

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.